

Y Grŵp Trawsbleidiol ar Fioamrywiaeth

Testun: Dirywiad Pryfed

Cofnodion

Dyddiad: Dydd Mawrth 1 Hydref 2019, 12:30-2pm

Lleoliad: Ystafelloedd Seminar 1 a 2, Pierhead, Bae Caerdydd

Yn bresennol

Aelodaeth y grŵp trawsbleidiol	Sefydliad	
John Griffiths AC	<i>Cadeirydd</i> , Llafur Cymru. Aelod o'r grŵp trawsbleidiol	JG
Llyr Gruffydd AC	Plaid Cymru. Aelod o'r grŵp trawsbleidiol	LG
Huw Irranca-Davies AC	Llafur Cymru. Aelod o'r grŵp trawsbleidiol	
Caroline Jones AC	Plaid Brexit.	
Liz Smith	<i>Ysgrifenyddiaeth</i> - Cyswllt Amgylchedd Cymru	
Becs Parker	Staff John Griffiths AC	
Karen Whitfield	Cyswllt Amgylchedd Cymru	
Llinos Price	Cyswllt Amgylchedd Cymru	
Clare Dinham	Buglife	CD
Richard Garner Williams	Cadwraeth Eog a Brithyll Cymru	RGW
Tabea Wilkes	RSPB	
Rachel Sharp	Ymddiriedolaethau Natur Cymru	RS
Christine Hugh-Jones	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig	CHJ
Lauren Mattingley	Cadwraeth Eog a Brithyll	
Leigh Harling-Bowen	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig	LM
Margaret Tregear	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig	
Shea Buckland-Jones	WWF	
Katy Orford	Y Gwasanaeth Ymchwil	KO
Andrew Minnis	Y Gwasanaeth Ymchwil	
Emily Williams	Y Gwasanaeth Ymchwil	
Dr Sarah Beynon	Bug Farm	SB
Janice Vincett	Syrfëwraig	
Sorcha Lewis	Rhwydwaith Ffermio Natur-Gyfeillgar	
Dusi Thomas	Dŵr Cymru	
Jessica Kent	Ecolegydd Dŵr Cymru	
Y Cynghorydd Paul Harries	Cadeirydd Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro	
Sue Evans	Ymddiriedolaeth Cadwraeth Anifeiliaid Hela a Bywyd Gwyllt	SE
Haydn Evans	Cymdeithas y Pridd	HE
Gareth Edge	Ymddiriedolaeth Afonydd De-ddwyrain Cymru	
Tony Rees	Ymddiriedolaeth Afonydd De-ddwyrain Cymru	

Pwyntiau Allweddol o'r Cyfarfod

1) Sylwadau agoriadol

Agorodd John Griffiths AC (JG) y digwyddiad gan dynnu sylw at y dirywiad pryderus mewn pryfed ledled y byd, gan gynnwys yn y DU. Tynnodd sylw at [bapur briffio Cyswllt Amgylchedd Cymru](#) ar y pwnc ac amlinellodd y bydd siaradwyr yn edrych ar gamau y gallwn eu cymryd yng Nghymru, ar sail ddatganoledig, ar gyfer yr argyfwng byd-eang hwn.

Diolchodd Clare Dinham (CD) i John a'r rhai a oedd yn bresennol am fod yno, a rhoddodd amlinelliad cyffredinol hefyd er mwyn cyflwyno'r digwyddiad. [Mae'r holl sleidiau cyflwyniadau'r diwrnod ar gael ar-lein yma.](#)

2) Clare Dinham, Buglife

Ar ddechrau'r digwyddiad, cyflwynodd CD fideo a oedd yn cynnwys gwaith ymchwil yr Athro Dave Goulson ar yr 'armagedon pryfed' sy'n ein hwynebu. Rhoddodd gyflwyniad yn amlinellu'r wybodaeth gefndir, gan gynnwys:

- Pwysigrwydd gwaith ymchwil a monitro, gan fod llawer o fylchau data o hyd ynghylch ba mor gyflym mae poblogaethau'n dirywio a pham. Tynnodd sylw at yr adroddiad Sefyllfa Byd Natur a'r ffaith bod dangosyddion bioamrywiaeth yn bwysig yn hyn o beth.
- Rhestrodd y buddion amrywiol a hanfodol y mae pryfed yn eu rhoi inni, gan gynnwys y canlynol:
 - peillio;
 - nhw yw lefel sylfaen y gadwyn fwyd ar gyfer y rhan fwyaf o rywogaethau;
 - ailgylchu gwastraff a rheoli plâu, yn enwedig ar ffermydd;
 - a gweithredu fel dangosydd ar gyfer cyflwr ac ansawdd yr amgylchedd ehangach.
- Aeth CD ymlaen i gyflwyno prif achosion dirywiad fel cynefinoedd yn cael eu colli neu eu darnio; llygredd ac arferion amaethyddol; rhywogaethau estron goresgynnol; a newid yn yr hinsawdd. Tynnwyd sylw ar chwilen yr Wyddfa, gyda'i chefn lliwgar, fel rhywogaeth brin yng Nghymru a effeithiwyd arni gan newid yn yr hinsawdd.

3) Dr Sarah Beynon o Bug Farm

Rhoddodd Dr Sarah Beynon amlinelliad cyffredinol o Bug Farm a sut mae'n gweithio. Mae hi'n rhedeg fferm weithredol go iawn, yn ogystal â chynnal gwaith ymchwil, cynnwys ysgolion a rhedeg bwyty gan ddefnyddio cynhwysion pryfed. Mae ei phartner, sy'n gogydd, yn defnyddio pryfed fel protein.

Disgrifiodd bwysigrwydd bywyd planhigion amrywiol a phridd iach i sicrhau bod chwilod yn ffynnu, a soniodd am ba mor hanfodol yw dolydd blodau gwyllt, er gwaethaf eu dirywiad syfrdanol dros yr ychydig ddegawdau diwethaf. Mae cynefinoedd glaswelltir yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i'r amrywiaeth o fywyd ar y fferm ac mae Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn dangos pa mor bwysig yn wyddonol ydynt hefyd. Soniwyd hefyd am fanteision pori, gyda gwartheg duon Cymreig yn pori ar Bug Farm hefyd.

Tynnodd SB sylw at rai o'i hoff rywogaethau ar y fferm a sut maen nhw wedi cynorthwyo eu twf. Aeth ymlaen i drafod Dung Beetles Direct, gwasanaeth y mae wedi'i greu ar gyfer ffermydd eraill er mwyn helpu i gynyddu chwilod y dom mewn amaethyddiaeth. Amlinellodd eu 'gwasanaeth' hanfodol i'r fferm fel ailgylchwr gwastraff. Ymhlith y gwasanaethau eraill y mae chwilod y dom yn eu darparu mae rheoli plâu, ailgylchu maetholion, cywasgu pridd a chreu strwythur pridd iach, bwyd ar gyfer adar a mamaliaid tir fferm, ynghyd â rheoli parasitiaid.

Amlinellodd y manteision economaidd, gan ddweud ei bod wedi ysgrifennu papur ar hyn yn y cyfnodolyn *Ecological Entomology*, a gofynnodd i randdeiliaid gysylltu â hi os oeddent am i gopi gael ei anfon atynt.

O ran twristiaeth, dangosodd SB sut mae Bug Farm yn gweithio fel atyniad i ymwelwyr ac mae hi'n cysylltu â chymaint o fentrau eraill â phosib, gan gynnwys dinasoedd sy'n Caru Gwenyn (mae Tyddewi yn un) a mapiau Helfa Beillwyr.

Yn olaf, rhoddodd grynodedb o'r rhesymau pam mae mwy o bobl yn bwyta pryfed, yn enwedig mewn gwledydd eraill. Maent yn cynnwys yr un faint o brotein â chig eidion ac maent yn hynod effeithlon wrth drawsnewid adnoddau yn brotein. Mae hi newydd ddyfeisio briwrig newydd o'r enw Vexo, gyda 79% yn llai o fraster na briwrig o gig, y mae'n ei hyrwyddo mewn ysgolion fel ffordd o annog bwyta'n iachach.

Gan fod y sesiwn yn gor-redeg, eglurodd JG y byddai angen iddo ef LG adael ar gyfer y Cyfarfod Llawn yn fuan felly agorodd y llawr ar gyfer peth trafodaeth, cyn y trydydd cyflwyniad.

6) Sesiwn holi ac ateb

Nododd Llŷr Gruffydd AC (LG) fod heriau mawr i newid y system amaethyddol. Dywedodd ei bod yn hanfodol cael ffermwyr i ddod gyda chi ar y daith. Gwnaeth LG gydnabod y pethau gwych y mae SB wedi'u cyflawni ar ei fferm ei hun, ond tynnodd sylw at natur arbenigol y model hwn, a'r arbenigedd sydd ei angen er mwyn cyflawni hyn. Teimlai fod y model yn gweithio **oherwydd** ei natur arbenigol a chwestiynodd a yw hyn, a modelau eraill sy'n gyfeillgar i natur, yn rhywbeth y gellid eu gwneud ar raddfa fwy er mwyn iddo weithio i'r mwyafrif o ffermwyr. Mae 90 y cant o ffermwyr yn mynd i'w chael hi'n anodd gwneud trawsnewidiad o'r fath.

Atebodd SB drwy ddweud ei bod hi, ar hyn o bryd, yn ddryslyd i ddefnyddwyr gefnogi nwyddau sy'n cael eu cynhyrchu mewn gwahanol ffyrdd sy'n gynaliadwy. Ni roddir y wybodaeth glir sydd ei hangen arnynt i wneud dewisiadau a fydd yn cefnogi trawsnewidiad o'r fath, felly mae'n bwysig iawn bod ffermwyr yn cael eu cymell yn briodol.

Teimlai Haydn Evans (HE) fod angen rhoi'r gorau i osod adferiad bioamrywiaeth 'mewn seilo'. Er enghraifft, os oes twf sylweddol mewn biodanwydd yna gallai hyn hefyd fod yn drychinebus i fioamrywiaeth. Dywedodd fod bod yn ymwybodol o'ch cynulleidfya wrth ddarparu gwybodaeth am y materion hyn yn bwysig.

Gofynnodd Sue Evans (SE) sut mae mwyafrif y ffermwyr am drawsnewid i dulliau newydd pan mae'n anodd prif ffrydio dulliau arloesol. Gall arloeswyr wneud incwm ond ni fydd hyn yn gweithio i bawb. Gwnaeth y pwynt hefyd bod gan lawer o ffermwyr ddiddordeb gwirioneddol mewn gwneud y newid hwn ond nid yw'r economeg yn caniatáu hynny.

Cytunodd SB a dywedodd fod system nwyddau cyhoeddus newydd yn allweddol ac y bydd angen i'r system ariannu ffermwyr yn briodol ac mae angen i'r cynllun gefnogi ffermwyr er mwyn iddynt allu gwneud y newid hwn.

Gofynnodd Rachel Sharp (RS) os oes gan ffermwyr ddiddordeb mewn newid, yna pam nad ydynt yn pwysu am newid drwy gael eu hariannu drwy gynllun nwyddau cyhoeddus ar y cyd gyda sefydliadau amgylcheddol. Gall ecolegwyr ddarparu tystiolaeth a dangos atebion a all weithio, ond mae angen help arnynt i lobïo er mwyn i hyn gael ei gefnogi'n ariannol gan y Llywodraeth.

Symudodd y cyfarfod ymlaen i'r trydydd cyflwyniad, gan Cadwraeth Eog a Brithyll.

4) Richard Garner Williams a Lauren Mattingley, Cadwraeth Eog a Brithyll

Cyflwynodd Richard Garner Williams (RGW) Lauren Mattingley (LM), gan amlinellu sut a pham y gall corff anllwydraethol sy'n canolbwytio ar bysgod gwyllt gyfrannu at adfer pryfed. Esboniodd fod bioamrywiaeth, gan gynnwys mewn afonydd, yn gysylltiedig â'i gilydd ac yn dibynnu ar bob elfen er mwyn adfer gyda'i gilydd os yw ansawdd dŵr i gael ei wella. Cyflwynodd y gwaith y mae Cadwraeth Eog a Brithyll, ar y cyd â chwmnïau dŵr a phartneriaid eraill â diddordeb, yn ei wneud ar fonitro pryfaid afonydd trwy'r prosiect Afonydd Clyfar.

Rhoddodd LM amlinelliad o Afonydd Clyfar: mae'n brosiect a sefydlwyd gyda'r nod o ddefnyddio infertebratau fel prawf diagnostig ar gyfer cynefinoedd pysgod. Gan fod infertebratau yn byw yn yr un ardaloedd dŵr croyw ag eogiaid a brithyllod ifanc, mae'r pwysau ar ansawdd dŵr yn effeithio ar y ddau ohonynt.

Esboniodd mai infertebratau yw sylfaen holl fywyd (fel bwyd ar gyfer pysgod, adar a mamaliaid); eu bod yn treulio'r rhan fwyaf o'u bywyd yn agored i'r dŵr; ac maent yn 'storiwyr' rhagorol am lygredd dŵr. Mae'r mathau o chwilod sy'n bresennol ac sy'n absennol mewn sampl dŵr yn nodi pa fathau o lygredd sydd yna.

Fe wnaeth y Riverfly Census samplu afonydd ledled Lloegr, gan ddadansoddi'r infertebratau er mwyn nodi problemau ansawdd dŵr. Arweiniodd at 8 argymhelliad polisi dŵr cenedlaethol; adroddiadau cyfrifiad lleol gwerthfawr ar gyfer afonydd, gyda chamau gweithredu a argymhellir; cronfa ddata genedlaethol y gallant ei hehangu a'i diweddar. Y tri phrif bwysau a ganfuwyd oedd gwaddod, cemegau a ffosfforws.

Pwysleisiodd LM nad yw'r math hwn o fonitro yn cael adnoddau digonol fel rheol ac mae angen: meincnodi arbenigol er mwyn parhau â'r gwaith ymchwil; hyfforddi gwirfoddolwyr ar sut i samplu afonydd; a mewnbynnu data a dadansoddi popeth a gesglir. Gorffennodd drwy ddweud bod gan Cadwraeth Eog a Brithyll 6 hyb Afonydd Clyfar ar waith a'u bod wrthi'n creu 6 arall.

6) Clare Dinham yn cloi

Gan ddod yn ôl at CD, rhoddodd gyflwyniad byr arall i gloi ar rai o'r atebion i ddirywiad pryfed. Mae hyn yn cynnwys adfywio cynefinoedd a lleihau'r defnydd o blaladdwyr niweidiol, fel neonicotinoidau, at ddefnydd amaethyddol a domestig.

Bydd Buglife ac aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru yn annog Llywodraeth Cymru ac ACau i ddatblygu polisi sy'n adfer ein hinfertebratau. Dylai hyn wneud y canlynol:

- Ailgysylltu safleoedd ynysig a chyfoethog o ran bywyd gwyllt a graddfa tirwedd ledled Cymru. Amddiffyn yr ardaloedd pwysicaf ar gyfer pryfed a nodi **Rhwydweithiau Adfer Natur** er mwyn adfer, ehangu ac ailgysylltu ein safleoedd gorau.
- Datblygu **gweledigaeth amaethyddol gyffredinol** i wneud bwyd a ffermio yn fwy cyfeillgar i fywyd gwyllt ac yn gynaliadwy. **System nwyddau cyhoeddus** lle mae gwasanaethau ecosystem sy'n gwarchod peillwyr, priddoedd a chysiau dŵr yn cael eu gwobrwyo.
- Wrth i Lywodraeth Cymru gyflwyno rheoliadau ar lygredd amaeth ym mis Ionawr 2020, mae angen iddi hefyd sicrhau bod **adrodd a monitro digonol** ar waith er mwyn gweld pa mor effeithiol yw rheoliadau.
- Cyflwyno **Targed Lleihau Plaladdwyr Cymru** ar gyfer busnesau a'r cyhoedd fel ei gilydd.
- Cefnogi plannu rhywogaethau brodorol ar lannau afonydd er mwyn amddiffyn cysiau dŵr a'u cysgodi.

Daeth CD â'r sesiwn i ben, gan alw eto am fwy o ddata a monitro, i lywio ymyriadau yn uniongyrchol.

7) Trafodaeth bellach a sesiwn holi ac ateb

Bu trafodaeth ymysg y grŵp ynglŷn â'r angen i gymharu manteision ecosystem sy'n deillio o wahanol systemau ffermio, ac mae angen i wyddonwyr roi mwy o wybodaeth i mewn i ddangos budd hyn i ffermio a diwydiannau eraill. Mae SB wedi gwneud gwaith ymchwil, er enghraifft, i ddangos budd economaidd chwilod y dom ac i gefnogi argymhellion y dylai ffermwyr roi'r gorau i ddefnyddio triniaethau ar gyfer anifeiliaid sy'n effeithio ar eu tail, sy'n arwain at ddirywiad chwilod y dom.

Nododd Katy Orford (KO) y defnydd o wndwn llysieuol ar fferm SB er mwyn darparu cynefin peillio, a gofynnodd i SB pa blanhigion eraill sy'n fuddiol. Dywedodd SB fod milddail a meillionen yn dda. Nododd ei bod yn ddrytach defnyddio gwndwn llysieuol mewn caeau yn hytrach na glaswellt rhyg, ond nid llawer drytach. Gofynnodd KO a yw ffermwyr yn gwybod am yr opsiynau hyn. Atebodd SB fod Cyswllt Ffermio yn dda am rannu gwybodaeth i ffermwyr am arferion rheoli cynaliadwy amgen. Dywedodd CD fod Cotswold Leys yn gwneud hadau ar gyfer hyn. Mae Buglife a Calon Wen yn gweithio gyda'i gilydd i brofi hyn.

Dywedodd HE ei fod yn defnyddio hwn ar ei fferm ac fe gadwodd ei wyrddni yn ystod sychder y llynedd. Gwelodd y ffermwr drws nesaf hyn (roedd ei gaeau glaswellt rhyg ei hun yn hollol sych ac yn frown) ac eleni mae wedi plannu gwndwn llysieuol ar ôl iddo weld pa mor effeithiol ydoedd.

Gofynnodd Christine Hugh-Jones (CHJ) sut y gallwn ymgorffori cysylltedd mewn polisi a deddfwriaeth. Esboniodd CD fod Llywodraeth Cymru a'r Asiantaeth Cefnffyrdd wedi ariannu eu prosiect, B-lines, a oedd yn ymwneud â chysylltedd cynefin cyfeillgar i beillwyr ar hyd ymylon ffyrdd. Mae Buglife hefyd wedi siarad â Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â chynnwys cyfleoedd ar gyfer cysylltedd mewn Datganiadau Ardal. Gallai cynlluniau Seilwaith Gwyrdd hefyd ymgorffori cysylltedd. Mae Buglife hefyd wedi bod yn gweithio i sicrhau bod Ardaloedd Infertebratau Pwysig yn ymddangos mewn chwiliadau ar gyfer canolfannau cofnodion lleol i helpu gyda chwiliadau cynllunio a nodi ardaloedd y mae angen eu gwarchod ar gyfer pryfed.

Mewn pwyntiau eraill a godwyd:

- Rhoddodd RGW enghraifft o brosiectau pryfed afonydd sy'n gysylltiedig â thirfeddianwyr er mwyn gwneud gwelliannau lle mae llygredd yn broblem.
- Nododd HE fod bwlch o ran dod â ffermwyr a gwyddonwyr ynghyd—mae'n ymddangos bod gwledydd eraill ymhell ar y blaen.
- Nododd RS fod angen newid system gyfan, gan gynnwys cyllid y Llywodraeth a chyllid preifat i gefnogi rheoli tir yn gynaliadwy.
- Gofynnodd Tony Rees (TR) a oedd unrhyw fonitro pryfed mewn ardaloedd treftadaeth. Dywedodd CD nad oes ar hyn o bryd. Tynnodd TR sylw at bwysigrwydd afonydd diwydiannol yn y Cymoedd sy'n gwella o ran ansawdd dŵr. Mae llai o ffermio yn yr ardaloedd hyn ond mae angen eu monitro o hyd.

Gofynnodd y Cynghorydd Paul Harries (PH) pa ymgysylltu sydd gydag awdurdodau'r parciau cenedlaethol ynglŷn a monitro. Esboniodd CD fod Buglife wedi ceisio cael cyllid (heb lwyddiant) ar gyfer prosiectau o amgylch Tyddewi ar y cyd â'r parc cenedlaethol yn ymwneud â llwybr yr arfordir. Mae lefel uchel o ymgysylltiad gyda staff awdurdod y parc cenedlaethol ond mae cyllid yn broblem o ran symud pethau ymlaen.

7) Cloi'r sesiwn

Daeth LS â'r sesiwn i ben a diolchodd y siaradwyr a phawb arall am ddod. Bydd y cyfarfod nesaf yn gynnar yn 2020; bydd un arall yn digwydd yn haf 2020.